

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mercher, 28 Ionawr 2026

Annwyl Cyngorydd,

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (B)

Cynhelir Cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu (B) Hybrid yn Siambr y Cyngor - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB / o bell drwy Microsoft Teams ar **Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2026 am 10:00.**

AGENDA

1 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2 Datganiadau o fuddiant

Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3 Cymeradwyaeth Cofnodion

3 - 14

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 07/10/2025 Cofnodion ar Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (B) o'r cyfarfodydd ar 12/11/2025 a 11/12/2025

4 Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

5 Gwahardd y Cyhoedd

Nid oedd y cofnodion ac adroddiadau sy'n ymwneud â'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Cymru) 2007 (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio).

Os, yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd yn yr Is-Bwyllgor yn penderfynu yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitemau hyn yn breifat, bydd y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath.

6 Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio

15 - 20

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion eithrio cyfarfod y 07/10/2025.

7 Rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat

21 - 42

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643159

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghorwr:

H T Bennett

C Davies

S Easterbrook

H Griffiths

RM James

P W Jenkins

R Williams

COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B A GYNHALIWDYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-YBONT AR OGWR CF31 4WB, DDYDD MAWRTH, 7 HYDREF 2025 AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

H T Bennett

C Davies

S Easterbrook

Presennol yn Rhithwir

RM James

P W Jenkins

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R Williams

Swyddogion:

Andrea Lee
Yvonne Witchell
Mark Galvin
Nimi Chandrasena

Uwch Gyfreithiwr
Uwch Swyddog Trwyddedu
Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogi

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Yn absenoldeb y Cadeirydd, enwebodd yr Is-bwyllgor y Cynghorydd Bennett yn Gadeirydd i'r cyfarfod. Cynigiwyd yr enwebiad hwn a chafodd ei eilio a dangosodd yr holl aelodau eu bod yn cytuno.

Cymeradwyo Cofnodion

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu B dyddiedig 07/01/25 a Chofnodion Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 (B) dyddiedig 21/01/2025, 29/04/2025 fel cofnod gwir a chywir. Roedd Cofnodion Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 dyddiedig 30/04/25 i gael eu hailystyried.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07/10/2025

70. Eitemau Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07/10/2025

71. Gwahardd y Cyhoedd

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf. Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, y dylid ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod, gan yr ystyrid ym mhob amgylchiad yn ymwneud â'r eitem, fod budd y cyhoedd drwy gynnal yr eithriad yn bwysicach na budd y cyhoedd drwy ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeisydd a grybwyllir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07/10/2025

Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig Is-bwyllgor Trwyddedu B dyddiedig 07/01/25 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07/10/2025

73. Gwrandawriad Disgyblu - Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat

Y Penderfyniad Wnaed	Nid yw'r penderfyniad ynghylch yr eitem hon ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd gan fod yr adroddiad wedi ei eithrio.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07/10/2025

I wyllo dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55.

This page is intentionally left blank

COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR (B) DEDDF TRWYDDEDU 2003 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD MERCHER, 12 TACHWEDD, 2025 AM 10:00

Presennol

Y Cyngorydd R Williams – Cadeirydd

RM James

Presennol yn Rhithwir

C Davies

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Easterbrook

Swyddogion:

Andrea Lee
Oscar Roberts
Yvonne Witchell
Nimi Chandrasena

Uwch Gyfreithiwr
Prentis Gweinyddu Busnes - y Gwasanaethau Democrataidd
Uwch Swyddog Trwyddedu
Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Cymorth

Gwahoddedigion

Cynrychiolydd y Cwmni oedd yn gwneud y Cais

Mr S Jose (Cyfarwyddwr – ar ran Grabbi)

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

87. Cymeradwyo'r Cofnodion

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod Is-bwyllgor (B) Deddf Trwyddedu 2003 30/04/2025 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	12/11/2025

88. Caniatáu Trwydded Safle i GRABBI, Adeilad Capel Ebeneser, Heol Pen-y-bont, Abercynffig

Y Penderfyniad Wnaed	Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu a'i bwrpas oedd penderfynu ar gais am drwydded safle yn Grabbi, Adeilad Capel Ebeneser, Heol Pen-y-bont ar Ogwr, Abercynffig CF32 9BG. Penderfynwyd, er nad oedd yr un o'r gwrthwynebwyr yn bresennol, nad oedd ar y naill barti na'r llall eisiau tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl. O'r herwydd, roedd angen gwrandawriad llawn ar gyfer y cais. Bu'r aelodau a'r ymgeisydd yn trafod pwrpas y safle ei hun gan gyfeirio at dudalen 4 y cais, a chwestiynu datganiad lle soniwyd y câi alcohol ei weini ar y safle. Cadarnhaodd cynrychiolydd y cwmni oedd yn ymgeisio na fyddai unrhyw alcohol yn cael ei weini ar y safle, dywedodd y câi alcohol ei werthu i'w yfed oddi ar y safle, cytunodd yr ymgeisydd y dylid diwygio'r cais i adlewyrchu hyn. Dywedodd cynrychiolydd y cwmni oedd yn ymgeisio ei fod yn deall ac yn parchu'r pryderon a godwyd gan y trigolion lleol yn llwyr. Dywedodd fod y cwmni'n rhannu awydd y trigolion i gynnal yr amgylchedd diogel a thawel mewn cymdogaeth a reolir yn dda. Dywedodd nad creu niwsans na tharfu oedd amcan y Cwmni, ond rhedeg safle cyfrifol, a reolid yn dda, fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at y gymuned leol. Aeth y cynrychiolydd i'r afael â'r gwrthwynebiadau a godwyd fel a ganlyn: Danfoniadau: Disgwylid danfoniadau fel arfer o gwmpas oriau busnes er mwyn osgoi aflonyddwch yn y gymuned. Nid yw'r Cwmni'n disgwyl danfoniadau na chasgliadau yn ystod oriau mân y bore nac yn hwyr y nos. Disgwyliai i ddadlwytho gael ei wneud yn dawl ac yn effeithlon gan bobl
----------------------	--

	ddosbarthu broffesiynol. • Parcio: Mae gan yr adeilad le parcio dynodedig wedi'i leoli o flaen yr adeilad. Disgwylid i ddanfoniadau gael eu trefnu ar amser na fyddai'n achosi problemau gyda pharcio. • Trosedd ac anhrefn: Mae'r siop wedi elwa o gael system CCTV gynhwysfawr wedi'i gosod i fonitro tu mewn a thu allan yr adeilad. Roedd yr holl staff i gael eu hyfforddi'n llawn i fonitro CCTV yn gyson a bod yn effro i unrhyw achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. • Diogelu plant: Byddai'r holl staff yn cael eu hyfforddi'n drylwyr a byddent yn gwybod na ddylent werthu alcohol i'r rhai dan oed a byddent mewn sefyllfa i herio pryniannau dan oed. Dywedodd y cynrychiolydd ei fod wedi cymryd adeilad gwag drosodd a bod hyn wedi creu cyflogaeth a busnes i'r ardal. Dywedodd fod cyflwyno ei fusnes wedi arwain at adolygiadau cymysg ymhlith trigolion. Dywedodd fod ganddo hefyd fusnes gofal cartref a, rhwng y ddau fusnes, roedd yn gyfrifol am 55 o weithwyr ar draws y fwrdeistref. Gofynnodd aelod a oedd gan y cynrychiolydd brofiad o fod yn berchen /rheoli safleoedd trwyddedig eraill ac atebodd y cynrychiolydd nad oedd ganddo. Holodd aelod y cynrychiolydd ynghylch ei gefndir o ran cynnal busnes. Atebodd y Cynrychiolydd mai ym maes gofal iechyd, yr oedd ei gefndir, lle cafodd ei gyflogi fel nyrs gofal oedolion ac iechyd meddwl dros gyfnod o oddeutu 20 mlynedd yng Nghaerdydd o fewn y GIG a chyfleusterau preifat. Dywedodd ei fod tua phedair blynedd yn ôl, wedi cychwyn gwasanaeth gofal cartref sy'n dwyn yr enw Star Care Solutions. Dywedodd fod y cyfleuster ar hyn o bryd yn gweithredu o dan contract dros dro gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, mae gan y gwasanaeth gofal contract parhaol gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Dywedodd fod y gwasanaeth gofal wedi symud eu swyddfeydd o Borthcawl i'r un adeilad â'r siop oedd dan sylw yn y cais hwn. Gofynnodd aelod i'r cynrychiolydd a oedd ef neu unrhyw un o'i weithwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant perthnasol i redeg busnes diodydd trwyddedig. Dywedodd y cynrychiolydd ei fod yn bwriadu recriwtio gweithwyr oedd â phrofiad perthnasol, a rhannodd fod sawl ymgeisydd lleol posibl eisoes wedi cysylltu ag ef. Roedd yn bwriadu i'w holl weithwyr fod wedi derbyn yr hyfforddiant gofynnol maes o law. Yn ei ddatganiad clo, dywedodd y Cynrychiolydd ei fod wedi ymgymryd ag adeilad gwag, a ddefnyddiwyd
--	--

	gynt i weithgaredd anghyfreithlon, a'i fod wedi buddsoddi cyllid ac adnoddau i ddod ag ef i'r safon fel y mae heddiw. Teimlai, drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a gweithio gyda'r gymuned, ei fod yn cael effaith gadarnhaol. Ar lefel bersonol, roedd arno eisiau sefydlu busnes oedd yn gwneud elw iddo ef ei hun, ac i'r perwyl hwn, roedd wedi prynu safleoedd eraill yng Nghwm Ogwr a Phorthcawl ac mai ei nod yn y pen draw oedd sefydlu'r brand Grabbi. Diolchodd y panel i'r cynrychiolydd am ei bresenoldeb ac am wneud ei gyflwyniad o blaid ei gais. Dywedwyd wrtho y byddent yn ailymgynnull i drafod y ffeithiau a gyflwynwyd iddynt ac y byddent wedi hynny yn ei hysbysu drwy e-bost, o fewn 5 diwrnod gwaith, am eu penderfyniad ynglŷn â'i gais. <u>PENDERFYNWYD:</u> Canfyddiadau'r Is-bwyllgor Mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried y 2 wrthwynebiad a wnaed gan y Cynghorydd Haines a Mrs Melardi. Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor sicrhau Dilysrwydd y gwrthwynebiad a ph'un a yw'n ddibwys neu'n flinderus. Eu henwau yn unig a roddodd y gwrthwynebwyr i'r cais hwn, nid eu cyfeiriadau, ac nid oeddent yn bresennol yn y gwrandawriad. Nid oedd yn bosibl i'r Is-bwyllgor benderfynu a oedd y sylwadau'n flinderus mewn unrhyw ffordd. Penderfynodd yr Is-bwyllgor hefyd fod rhai o'r gwrthwynebiadau yn seiliedig ar alcohol yn cael ei yfed ar y safle, ond nid oedd hyn yn wir mwyach gan fod yr Ymgeisydd wedi diwygio ei gais ar gyfer gwerthu diodydd i'w hyfed oddi ar y safle yn unig. Nododd yr Is-bwyllgor hefyd nad oedd unrhyw wrthwynebiadau gan yr Awdurdodau Statudol sef yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a Gwarchod y Cyhoedd ac atebodd yr Ymgeisydd yr holl bryderon a godwyd gan y Gwrthwynebwyr yn ei sylwadau i'r Is-bwyllgor. Mae'r Is-bwyllgor yn canfod nad yw'r cais ynghyd â'r amodau a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd yn tanseilio'r 4 amcan trwyddedu. Penderfyniad yr Is-bwyllgor Ar ôl clywed gan yr Ymgeisydd ac ystyried y gwrthwynebiadau ac ymateb yr Ymgeisydd i'r gwrthwynebiadau hynny, mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu rhoi'r Drwydded ynghyd â'r holl amodau a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd yn ei gais.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	12/11/25

Eitemau Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	12/11/25

I wyllo rhagor o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) yma

Daeth y cyfarfod i ben am 11:15.

This page is intentionally left blank

IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) - DYDD IAU, 11 RHAGFYR 2025

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (B) A GYNHALIWYD AR DYDD IAU, 11 RHAGFYR 2025 10:00

Presennol

Y Cyngorydd R Williams – Cadeirydd

S Easterbrook

Presennol – O Bell

C Davies

Swyddogion:

Kirsty Evans
Samuel Pitchford
Michael Pitman
Oscar Roberts

Rheolwr Tîm Trwyddedu
Cyfreithiwr – Tîm Ymglyfreitha
Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro – Pwyllgorau

90. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	11 Rhagfyr 2025

91. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.
------------------------	--

Dyddiad gwneud y penderfyniad	11 Rhagfyr 2025
-------------------------------	-----------------

92. **Deddf Trwyddedu 2003: Adran 104 Ystyriaeth o Hysbysiad**
Gwrthwynebiad ar gyfer Digwyddiad Dros Dro yn Newbridge Fields

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Reolwr y Tîm Trwyddedu, oedd gofyn i'r Aelodau ystyried a phenderfynu ar Hysbysiad Gwrthwynebu a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru mewn ymateb i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (TEN) a gyflwynwyd i'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer Caeau Newbridge, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4BW. Yr Ymgeisydd oedd Joanne Summer Evans, oedd wedi cyflwyno Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer Dawns Fasgiau i'w chynnal yn yr adeilad ar y 14^{eg} o Chwefror 2025, yr oedd Heddlu De Cymru wedi ei wrthwynebu'n ffurfiol ar y sail fod yr hysbysiad yn tanseilio'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn ac ar sail diogelwch y cyhoedd. Bu'r panel yn trafod y wybodaeth ac argymhellodd y dylid clywed manylion yr achos mewn sesiwn gaeedig. Aeth y cyfarfod i mewn i sesiwn gaeedig. Pan gafodd y cyfarfod ei ailagor i'r cyhoedd, hysbyswyd yr Ymgeisydd y câi'r penderfyniad ei roi iddo maes o law. <u>PENDERFYNWYD:</u> Ar ôl i'r Is-bwyllgor ystyried, penderfynodd yr Aelodau gyhoeddi gwrth-hysbysiad o dan adran 105 o Ddeddf Trwyddedu 2003, yn gwrthod y cais.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	11 Rhagfyr 2025

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:25

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

By virtue of paragraph(s) 12 of Part 4 of Schedule 12A
of the Local Government Act 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank